

## Cwestiynau byr (A01, A02)

Ceisiwch lunio atebion byr ar gyfer y cwestiynau isod:

Eglurwch pam fod rhyddfrydwyr yn rhoi cymaint o bwyslais ar yr unigolyn?
Pa ffurfiau ar gydraddoldeb mae rhyddfrydwyr yn credu ynddynt, a pha rai maent yn anghytuno â nhw?
Pam fod goddefgarwch yn egwyddor mor bwysig i ryddfrydwyr?
Eglurwch beth yw'r prif wahaniaethau rhwng sut y cred Rhyddfrydwyr Clasurool a Rhyddfrydwyr Modern y dylai'r wladwriaeth ddelio â'r economi?
Pam fod rhai meddylwyr rhyddfrydol wedi mynegi pryderon ynglŷn â goblygiadau democratiaeth?
At beth y mae'r term neo-ryddfrydiaeth yn cyfeirio, ac i ba draddodiad rhyddfrydol y mae'n fwyaf tebyg iddo? Pam?

Wrth baratoi eich atebion meddylwch yn ofalus ynglŷn â'r pwyntiau canlynol:

- i) **Gwybodaeth:** Er mwyn dangos bod gennych wybodaeth eang a manwl meddylwch yn ofalus am y gwahanol fathau o gysyniadau, egwyddorion a meddylwyr sydd angen eu trafod er mwyn ateb y cwestiwn yn llawn.
- ii) **Eglurder:** Er mwyn sicrhau eich bod yn cyflwyno eich gwybodaeth mewn modd clir, meddylwch yn ofalus sut i strwythuro eich ateb. Meddylwch ym mha drefn y dylid gosod eich pwyntiau er mwyn sicrhau bod eich ateb yn llifo'n esmwyth.
- iii) **Perthnasedd:** Er mwyn sicrhau bod eich ateb yn trafod pwyntiau perthnasol sicrhewch eich bod yn deall beth yn union mae'r cwestiwn yn gofyn i chi ei wneud ac yna sicrhewch eich bod ond yn cynnwys deunydd perthnasol i'r cwestiwn yn eich ateb.